# Cyflwyniad i'r cymhwyster Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer – canllaw i ddysgwyr/myfyrwyr

City & Guilds

cbac wjec



# CYNNWYS


Trosolwg o'r fframwaith 4

Cyfres gyflawn o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant 2020 6

Cymhwyster Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer 7

Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster? 7

Gofynion cofrestru dysgwyr 7

Nodau ac amcanion 8

Pa gyfleoedd sydd ar gael i symud ymlaen? 8

Sut allaf fod yn hyderus bod y cymhwyster hwn yn gyfredol ac y bydd cyflogwyr yn ei gydnabod? 9

Strwythur y cymhwyster 10

Oriau dysgu dan arweiniad a chyfanswm yr amser cymhwyso 10

Unedau 11

Asesu 12

Beth yw uned? 13

Mae rhai geiriau a datganiadau'n ymddangos mewn print trwm – pam? 14

Ble alla i ganfod rhagor o wybodaeth am bob uned? 15

Pa feysydd pwnc fyddaf yn dysgu amdanyn nhw? 16

Beth mae'n rhaid i mi ei wneud i gyflawni'r cymhwyster hwn? 20

Ffocws ar arweinyddiaeth 21

Ymgysylltu â chyflogwyr 22

Beth yw mentor yn y gweithle? 22

Nid oes swydd gen i, alla i gwblhau'r cymhwyster hwn o hyd? 22

Sut olwg fydd ar fy nhaith trwy'r cymhwyster? 23

Cam 1 – Cyn cyflwyno 24

Pa adnoddau fydd eu hangen arnaf? 26

Pa unedau fyddaf yn eu cwblhau? 26

Beth yw credydau? 27

Grwp dewisol 28

Cam 2 – Cyfnod Dysgu 29

Cyfnod dysgu ffurfiol 31

Asesu ffurfiannol 31

Paratoi ar gyfer asesiad 31

Beth sy'n digwydd os nad ydw i'n barod? 32

Beth sy'n digwydd pan ydw i'n barod? 32

Cam 3 – Cyfnod asesu crynodol 33

Sut bydd fy nghymhwyster yn cael ei asesu? 34

Beth fydd yn rhaid i mi ei wneud? 36

Dull asesu 37

Tasg 1: Portffolio o dystiolaeth 38

Tasg 2: Project busnes 38

Tasg 3: Trafodaeth broffesiynol 38

Pa dystiolaeth gallaf i ei defnyddio yn fy mhortffolio? 39

Tyst Arbenigol 39

Log myfyriol 40

Beth yw trafodaeth broffesiynol? 44

Cyn y drafodaeth 44

Amseriadau 44

Cefnogi'r broses asesu 45

Cyflwyno'r gwaith 46

Cefnogaeth ac adborth 46

Cam 4 – Cwblhau 47

Ailgyflwyno 48

Beth sy'n digwydd ar ôl fy nhrafodaeth broffesiynol? 48

Pa gefnogaeth sydd ar gael i mi? 49

Sut gallaf baratoi ar gyfer fy asesiadau? 50

Symud ymlaen ar draws y sector ehangach 51

A fydd cyflogwyr y tu allan i Gymru yn cydnabod fy nghymhwyster? 52

Cyllid 52

Sut ydw i'n hoffi dysgu – beth yw fy 'hoff' ddull dysgu? 53

# Trosolwg o'r fframwaith

Mae uchelgais Llywodraeth Cymru i godi safonau a sgiliau'r gweithlu gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar wedi'i fynegi'n glir yng Nghynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar (2017), yn enwedig eu hawydd i 'gefnogi rheolwr pob lleoliad i anelu at a chyrraedd Lefel 5' (t. 15) gydag ymrwymiad i '...[g]efnogi'r sector drwy ddatblygu llwybrau dilyniant priodol i gyflawni'r cymwysterau hyn ac i gael mynediad i lwybrau hyfforddiant a gyrfa strwythuredig' (t. 15).[1]

Wrth amlinellu cyfrifoldebau a dyletswyddau rheolwr yn y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru, mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn nodi bod arfer rheoli da yn cynnwys yr ystyriaethau canlynol, pob un ohonynt y byddwch yn ei dysgu a'i datblygu fel rhan o'r cymhwyster Lefel 5 hwn:

- Sicrhewch fod eich gwybodaeth a'ch sgiliau yn gyfredol
- Defnyddiwch eich dysgu i wella eich gwasanaeth
- Defnyddiwch eich goruchwyliaeth a gwerthusiad i adlewyrchu a gwella eich ymarfer.
- Gwnewch ymdrech i ddatblygu eich gwybodaeth a'ch sgiliau fel rheolwr.

(2017 GCC: Blwyddyn Gyntaf fel Rheolwr Adran 1, t. 6)
https://gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/file-uploads/First-Year-as-a-Manager-WEL.pdf

Rhwng 2015 a 2016 cynhaliodd Cymwysterau Cymru adolygiad o'r holl gymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant y gellid eu hariannu yng Nghymru. Yn dilyn yr adolygiad, daeth Cymwysterau Cymru i'r casgliad bod y nifer mawr o gymwysterau oedd ar gael yn rhy ddryslyd i ddysgwyr, rhieni/gofalwyr a chyflogwyr.

O ganlyniad i'r canfyddiadau hyn, comisiynodd Cymwysterau Cymru City & Guilds a CBAC (**y Consortiwm**) i ddatblygu o leiaf 22 o gymwysterau gyda'r bwriad o ddiwallu anghenion datblygol y sector iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant (gweler y darlun ar dudalen 6). Rydym wedi gweithio'n agos gyda Cymwysterau Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru a chyrff eraill yn y sector, tiwtoriaid, athrawon ac aseswyr gweithleoedd i sicrhau bod y cymwysterau newydd yn arloesol, yn addas at y pwrpas ac o'r ansawdd gorau.

[1] Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar Cynllun Gweithlu (cyrchwyd ar 26 Mawrth 2020)

Mae City & Guilds a CBAC yn Gyrff Dyfarnu cydnabyddedig. Mae hyn yn golygu ein bod wedi cael ein cymeradwyo gan Cymwysterau Cymru, a chyrff eraill ledled y DU, i lunio, datblygu, cyflwyno a dyfarnu cymwysterau yn unol ag amodau a rheoliadau penodol.

Gallwch chi ddarganfod mwy am adolygiad Cymwysterau Cymru yma:
https://qualificationswales.org/cymraeg/cymwysterau/cymwysterau-galwedigaethol/adolygiadau-sector/iechyd-gofal-cymdeithasol-a-gofal-plant/

P'un a ydych chi yn yr ysgol neu mewn coleg chweched dosbarth, yn gweithio neu'n astudio mewn coleg neu gyda darparwr yn y gweithle, mae'r gyfres o gymwysterau newydd wedi'u cynllunio i ddiwallu eich anghenion. Maent ar gael o Lefel 1 i Lefel 5, gan gynnwys TGAU a TAG UG a Safon Uwch, ac yn darparu cyfleoedd i symud ymlaen, p'un a ydych chi'n ystyried symud ymlaen i gyflogaeth, yn chwilio am ddilyniant gyrfa neu'n gobeithio mynd i'r coleg neu'r brifysgol.

Mae adnoddau'r cymhwyster ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Siaradwch â'ch tiwtor/athro/aseswr am gwblhau eich cymhwyster yn Gymraeg. Mae deunyddiau cefnogi ar gael ar-lein gan Dysgu Iechyd a Gofal Cymru, ac maen nhw'n cynnwys:

- llawlyfr y cymhwyster – gan gynnwys canllawiau ar gyfer pob uned unigol
- pecyn asesu.

# Cyfres gyflawn o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant 2020

Mae'r canllaw hwn i fyfyrwyr yn canolbwyntio ar y cymhwyster **Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer**. Mae'n rhaid i chi fod yn 18 oed o leiaf i gwblhau'r cymhwyster hwn. Mae'r fframwaith isod yn amlygu sut mae'r cymhwyster yn cyd-fynd â'r gyfres newydd o gymwysterau.

## Lefel 5

- City & Guilds – Arwain a Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer **Yn fyw erbyn: Medi 20**
- City & Guilds – Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer **Yn fyw erbyn: Medi 20**

## Lefel 4

- City & Guilds – Ymarfer Proffesiynol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol 1) Eiriolaeth Annibynnol 2) Lleoliad Oedolion/Bywydau a Rennir 3) Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol **Yn fyw erbyn: Medi 20**
- City & Guilds – Ymarfer Proffesiynol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol **Yn fyw erbyn: Medi 20**
- City & Guilds – Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion, Damcaniaethau a Chyd-destunau **Yn fyw erbyn: Medi 20**
- City & Guilds – Arwain a Rheoli Gofal,Chwarae,Dysgu a Datblygiad Plant: Egwyddorion, Damcaniaethau a Chyd-destunau **Yn fyw erbyn: Medi 20**
- City & Guilds – Ymarfer Proffesiynol mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant **Yn fyw erbyn: Medi 20**

## Lefel 3

- City & Guilds – Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion) **Yn fyw: Medi 19**
- City & Guilds – Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Plant a Phobl Ifanc) **Yn fyw: Medi 19**
- cbac wjec – Tystysgrif a Diploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol **Yn fyw: Medi 20**
- cbac wjec – TAG Uwch a TAG Uwch Gyfrannol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant **Yn fyw: Medi 20**
- cbac wjec – Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori **Yn fyw: Medi 20**
- City & Guilds – Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer **Yn fyw: Medi 19**

## Lefel 2

- City & Guilds – Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion) **Yn fyw: Medi 19**
- cbac wjec – Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau **Yn fyw: Medi 19**
- City & Guilds – Iechyd a Gofal Cymdeithasol: **Craidd*** **Yn fyw: Medi 19**
- cbac wjec – TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant **Yn fyw: Medi 19**
- cbac wjec – Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori **Yn fyw: Medi 19**
- cbac wjec – Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: **Craidd*** **Yn fyw: Medi 19**
- City & Guilds – Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer **Yn fyw: Medi 19**

### Allwedd

- Seiliedig ar ymarfer (glas)
- Seiliedig ar wybodaeth (gwyrdd)
- * Argymhellir sefyll y cymhwyster Craidd cyn neu ar yr un pryd â Lefel 2 neu Lefel 3 (llwyd)
- City & Guilds: Cynigir gan City & Guilds
- cbac wjec: Cynigir gan CBAC

# Cymhwyster Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer 2020

## Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster?

Rydych chi'n gweithio tuag at y cymhwyster **Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer**, sydd wedi'i gynllunio ar gyfer unigolion sy'n gweithio mewn rôl arwain neu reoli mewn:

- lleoliadau gofal plant wedi'u rheoleiddio gyda phlant o dan 8 oed a'u teuluoedd
- gwasanaethau plant y GIG ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda phlant 0-19 oed a'u teuluoedd.

Mae'r cymhwyster yn seiliedig ar ymarfer ac yn asesu eich gwybodaeth a'ch ymarfer. Mae wedi'i gynllunio ar gyfer dysgwyr sy'n dysgu yn y gwaith a bydd yn asesu eich gwybodaeth a'ch ymarfer drwy eich gwaith. Yn y cymhwyster hwn, mae gofyn i ddysgwyr ddatblygu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth, yr ymddygiadau a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer arwain a rheoli mewn lleoliadau gofal plant ac iechyd plant, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddatblygu eu cyfleoedd cyflogaeth neu i barhau ag astudiaethau pellach ar lefel uwch.

## Gofynion cofrestru dysgwyr

Mae'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae angen i chi eu cyflawni yn y cymhwyster hwn yn adeiladu ar gynnwys y cymhwyster **Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli ym maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant**. Felly:

- **Rhaid** eich bod wedi cwblhau'r cymhwyster canlynol cyn cofrestru ar gyfer y cymhwyster hwn:
  **8040-09 Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli ym maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant.**
- Bydd eich canolfan, fel rhan o'r trefniadau ar gyfer eich sefydlu i'r rhaglen, yn cadarnhau bod yr holl feysydd gwybodaeth wedi'u hymdrin â nhw'n ddigon manwl, a'ch bod chi'n meddu ar ddealltwriaeth ddigonol i symud ymlaen i raglen Lefel 5.
- Nid yw City & Guilds yn pennu unrhyw ofynion cofrestru **ychwanegol** ar gyfer y cymhwyster hwn. Fodd bynnag, rhaid i ganolfannau sicrhau bod gan ymgeiswyr y potensial i ennill y cymhwyster yn llwyddiannus, a'r cyfle i wneud hynny.

## Nodau ac amcanion

Bydd y cymhwyster **Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer** yn eich galluogi i ddatblygu a dangos eich gwybodaeth, eich sgiliau a'ch dealltwriaeth mewn lleoliad gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. Yn arbennig, bydd dysgwyr yn gallu dangos eu bod yn:

- deall, ac yn gallu defnyddio'n ymarferol, amrywiaeth o gysyniadau, damcaniaethau a thechnegau arwain a rheoli
- myfyrio ar eu gwybodaeth eu hunain ac eraill, myfyrio ar eu harddulliau arwain a rheoli eu hunain a rhai eraill, a deall sut mae'r rhain yn effeithio ar y rheini y maent yn gweithio gyda nhw, yn y lleoliad a'r tu allan i'r lleoliad
- arwain a rheoli trefniadau ar gyfer gwella perfformiad mewn lleoliadau gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant
- arwain a rheoli dulliau plentyn-ganolog wrth ymarfer
- arwain a rheoli trefniadau ar gyfer gwella gwasanaethau a ddarperir ym maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant
- gweithio fel dysgwyr effeithiol ac annibynnol, a meddwl yn feirniadol a myfyriol er mwyn llunio barn gwybodus sy'n cynnwys defnyddio a dehongli data
- defnyddio sgiliau cyfathrebu, rhifedd a chymhwysedd digidol fel y bo'n briodol yn eu rôl.

## Pa gyfleoedd sydd ar gael i symud ymlaen?

Mae cwblhau'r cymhwyster hwn yn llwyddiannus yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu cyfleoedd cyflogaeth neu i barhau ag astudiaethau pellach ar lefel uwch.

# Sut allaf fod yn hyderus bod y cymhwyster hwn yn gyfredol ac y bydd cyflogwyr yn ei gydnabod?

Datblygwyd y cynnwys ar y cyd â'r Consortiwm, yn ogystal â rhanddeiliaid, tiwtoriaid, athrawon ac aseswyr yn y gweithle o bob rhan o'r sector Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant.

Mae'n debygol y bydd eich coleg neu eich darparwr yn y gweithle yn gweithio'n agos gyda chyflogwyr yn y maes Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn eich ardal chi ac y byddan nhw wedi datblygu rhaglen astudio er mwyn sicrhau bod holl ofynion y cymhwyster wedi'u bodloni. Gall eich dysgu ddigwydd mewn amgylchedd strwythuredig iawn, e.e. mewn ystafell ddosbarth draddodiadol, neu drwy ddull mwy cymysg sy'n cynnwys yr ystafell ddosbarth a dysgu ar-lein. Fel arall, gallech chi gael eich cefnogi i ddysgu 'yn y gwaith' ac i ymgymryd â rhywfaint o astudio hunangyfeiriedig. Pa bynnag ddull dysgu fyddwch chi'n ei ddewis, rydym wedi darparu rhywfaint o adnoddau cefnogol i'ch helpu wrth fynd ymlaen.

P'un a ydych chi yn y coleg neu'n cael eich cefnogi gan ddarparwr yn y gweithle, mae'n debygol y bydd angen i chi ddysgu gwybodaeth sy'n newydd i chi. Gall nifer o ffactorau ddylanwadu ar sut rydych chi'n dysgu, yn cynnwys yr hyn sy'n eich cymell chi a pha fath o amgylchedd sydd ei angen arnoch chi. Bydd eich tiwtor/athro/aseswr am weithio gyda chi i wybod sut gallan nhw eich cefnogi chi i ddysgu'n effeithiol – cyfeirir at hyn yn aml fel eich **'hoff' ddull dysgu** (gweler tudalen 53 am fwy o wybodaeth am 'hoff' ddulliau dysgu).

# Strwythur y cymhwyster

## Oriau dysgu dan arweiniad a chyfanswm yr amser cymhwyso

| | | |
|---|---|---|
| **Lleiafswm yr oriau dysgu dan arweiniad** | **415 awr** | Dyma faint o amser dysgu ac asesu dan oruchwyliaeth y mae ei angen i gyflwyno'r cymhwyster a gellir defnyddio'r ffigur hwn at bwrpasau cynllunio. |
| **Cyfanswm amser y cymhwyster** | **1200 awr** | Dyma gyfanswm yr amser y mae disgwyl i ddysgwr ei dreulio er mwyn ennill cymhwyster. Mae'n cynnwys oriau dysgu dan arweiniad (a restrir ar wahân) ac oriau a dreulir yn paratoi, yn astudio ac yn cyflawni rhai gweithgareddau asesu ffurfiannol. |

# Unedau

Mae'r cymhwyster **Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer** yn cynnwys unedau gorfodol a dewisol.

Mae 6 uned yn y grŵp gorfodol:

- Uned 501: Arwain a rheoli ymarfer plentyn-ganolog
- Uned 502: Arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol
- Uned 503: Arwain a rheoli ansawdd gweithle/lleoliad
- Uned 504: Ymarfer proffesiynol
- Uned 505: Arwain a rheoli ymarfer sy'n hybu'r broses o ddiogelu plant
- Uned 506: Arwain a rheoli iechyd, diogelwch a diogeledd (security) yn y gweithle/lleoliad.

Mae 12 uned yn y grŵp dewisol. Mae'n rhaid i chi gyflawni pob un o'r 6 uned orfodol a dewis **o leiaf un uned ddewisol**. Mae'n rhaid i'ch unedau dewisol fod yn gywerth â chyfanswm o 30 credyd o leiaf. Gallwch chi weld y rhestr o'r unedau a'u cynnwys drwy'r wefan Dysgu Iechyd a Gofal Cymru ac maen nhw hefyd wedi'u rhestru isod ar dudalennau 16-19.

https://www.dysguiechydagofal.cymru/cymwysterau/level-5-leadership-and-management-of-children-s-care-play-learning-and-development-practice/

# Asesu

Y prif ddulliau asesu yn y cymhwyster hwn fydd portffolio o dystiolaeth, project busnes, arsylwad o ymarfer a thrafodaeth broffesiynol. Mae'r gweithgareddau asesu wedi'u cynllunio fel y gellir casglu tystiolaeth gyfannol. Mae hyn yn golygu y bydd eich tystiolaeth yn cael ei chasglu o sefyllfaoedd gweithio go iawn sy'n dangos eich bod yn gallu gweithio'n hyderus ac yn gyson ar draws pob agwedd ar y cymhwyster ar fwy nag un achlysur; gan eich cefnogi chi i ddangos eich gwybodaeth a'ch sgiliau ar draws unedau a deilliannau dysgu gwahanol yn yr un gweithgaredd, gan leihau unrhyw ailadrodd wrth asesu.

Bydd y tasgau'n gofyn i chi integreiddio eich gwybodaeth a'ch sgiliau mewn ffordd sy'n adlewyrchu gofynion y gweithle a'r sector o ran arwain a rheoli yn effeithiol. Felly, mae'r asesiad yn canolbwyntio ar sicrhau ansawdd a chysondeb eich ymarfer.

# Beth yw uned?


Mae'r holl wybodaeth, dealltwriaeth, ymddygiadau, sgiliau ac ymarfer y mae ei angen ar gyfer y cymhwyster wedi'i drefnu yn unedau – yn debyg i benodau mewn llyfr. Mae cynllun yr uned a ddefnyddir yn y cymhwyster hwn wedi'i ddangos isod ac rydym wedi nodi rhai o'r agweddau a'r iaith allweddol y byddwch chi'n dod yn fwy a mwy cyfarwydd â nhw wrth i chi symud ymlaen ar eich taith ddysgu ac asesu.

**Rhif yr uned**

**Lefel yr uned**

**Nod/crynodeb uned:** Crynodeb ar lefel uchel o'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a/neu'r sgiliau o gynnwys yr uned y mae disgwyl i'r dysgwr eu cyflawni wrth ei chwblhau. Gall gynnwys gwybodaeth am y mathau o osodiadau y mae'r uned yn ymwneud â nhw, neu'n cael eu heithrio rhagddo.

**Deilliant dysgu:** Rhan ar wahân o ddysgu sy'n berthnasol i nod yr uned. Bydd nifer y DD yn amrywio yn ôl uned.



**Uned 501** **Arwain a rheoli ymarfer plentyn-ganolog**

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 5 |
| **ODA:** | 60 |
| **Credyd:** | 20 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain a rheoli ymarfer plentyn-ganolog. Mae'n adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o'r cymhwyster Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant |

Deilliant dysgu:

1. Arwain y defnydd o ymchwil ac ymarfer y mae tystiolaeth yn sail iddo ar gyfer datblygiad cyfannol a llesiant plant

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 Ymchwil gyfoes ac ymarfer wedi'i [illegible] gan dystiolaeth ar gyfer sicrhau datblygiad cyfannol a llesiant plant

1.2 Sut i ddadansoddi a gwerthuso damcaniaethau, m[illegible]lau a fframweithiau sy'n cefnogi datblygiad cyfannol

1.3 Sut y gellir cymhwyso tystiolaeth ymchwil ochr yn ochr â damcan[illegible]au, modelau a fframweithiau

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

1.4 Arwain y defnydd o ymchwil, tystiolaeth, damcaniaethau, modelau a fframweithiau er mwyn llywio ymarfer sy'n cefnogi datblygiad cyfannol a llesiant plant

1.5 Sicrhau y caiff enghreifftiau cadarnhaol o arferion da eu rhannu yn y gweithle/lleoliad

Deilliant dysgu:

2. Arwain a rheoli ymarfer sy'n hybu [illegible] a llais y plentyn

Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.1 Sicrhau bod gweithwyr yn cael eu cefnogi i ddeall:
- sut i roi egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ar waith
- rôl 'sylwadau cyffredinol' perthnasol ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer – Llawlyfr y Cymhwyster

27

**Teitl yr uned**


**ODA:** Nifer yr Oriau Dysgu dan Arweiniad a argymhellir ar gyfer yr uned.

**Meini prawf asesu:** Eitemau o wybodaeth, dealltwriaeth neu sgiliau angenrheidiol i fodloni deilliant dysgu penodol. Asesir pob MPA dros amser, ond nid mewn asesiad unigol.

# Mae rhai geiriau a datganiadau'n ymddangos mewn print trwm – pam?

Ym mhob uned, byddwch chi'n sylwi bod rhai geiriau a datganiadau mewn print **trwm**. Mae hyn yn golygu bod angen ystyried y rhain mewn ffordd benodol neu fod diffiniad neu ystyr penodol y mae angen ei ddefnyddio. Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach o ran y geiriau a'r datganiadau hyn yn adran 'Amrediad' yr uned.

**Amrediad:** Nodi'n union yr hyn y mae'n rhaid ei ystyried wrth fynd i'r afael â'r geiriau neu'r gosodiadau hyn mewn print trwm.



**Uned 505** Arwain a rheoli ymarfer sy'n hybu'r broses o ddiogelu plant

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 5 |
| **ODA:** | 60 |
| **Credyd:** | 12 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i hybu'r broses o ddiogelu plant mewn swydd arwain a rheoli. Mae'n adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o'r cymhwyster Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant |

Deilliant dysgu:

1. Arwain a rheoli cydymffurfiaeth â gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol o ran diogelu plant

Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

1.1 **Rhoi polisïau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n galluogi gweithwyr i gydymffurfio â gofynion diogelu

1.2 Monitro cydymffurfiaeth â gofynion diogelu a chymryd camau lle na chydymffurfi...

1.3 Rheoli perfformiad gweithwyr er mwyn bodloni gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol mewn perthynas â diogelu

**Amrediad**

**Rhoi polisïau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

Deilliant dysgu:

2. Meithrin a chynnal gwybodaeth a dealltwriaeth am ddiogelu plant

Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.1 Sicrhau bod gweithwyr yn deall y canlynol:

Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer – Llawlyfr y Cymhwyster 55

Geiriau mewn print **trwm**

## Ble alla i ganfod rhagor o wybodaeth am bob uned?

Ar ddiwedd pob uned rydym wedi rhoi arweiniad pellach a bydd eich tiwtor/hyfforddwr/aseswr yn cyfeirio at y rhain er mwyn llywio'r ffordd y bydd yn addysgu, dysgu ac asesu. Gweler y 'Canllawiau Cyflwyno' ar gyfer uned 512 isod. Efallai y byddai'n fuddiol i chi edrych ar Ganllawiau Cyflwyno pob uned yn y cymhwyster hwn. Gellir gweld y rhain yn Llawlyfr y Cymhwyster.

**Uned 512** **Arwain a rheoli gwelliant parhaus drwy'r prosesau rheoleiddio**

Gwybodaeth Ategol

***Canllawiau cyflwyno***

**Cylch Gwelliant Parhaus:** Pwysigrwydd parhau i nodi ac adnabod ymarfer dyddiol parhaus i wella'r canlyniadau i blant y gellid ei ddefnyddio fel tystiolaeth yn ystod arolygiad

**Canfyddiadau:** gallai gynnwys barn a/neu radd

**Bwrw ati â'u gwaith:** Y gwahanol adnoddau a dulliau y gallai'r arolygiaeth eu defnyddio i lywio ei gwerthusiad

**Gwelliant:** gallai gwelliant gynnwys gweithgarwch dilynol neu AGC yn sicrhau polisi gwella a gorfodi a "gweithgarwch dilynol"

**Gallai'r arolygiad gynnwys:** AGC, ESTYN, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, arolygiadau ar y cyd gan AGC ac ESTYN, AGIC

**Eraill:** Sefydliad (perchenogion, aelodau'r bwrdd, uwch-reolwyr/unigolyn cyfrifol, gweithwyr, gweithwyr proffesiynol eraill, plant, teuluoedd/gofalwyr)

**Safonau rheoleiddiol** yw'r safonau hynny y caiff eich lleoliad penodol ei reoleiddio a'i arolygu yn eu herbyn yn eich gwlad gartref

Mae **gofynion rheoleiddiol** yn cynnwys tystiolaeth o gydymffurfio â rheolau iechyd a diogelwch, fframwaith cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru, rheoliadau iechyd yr amgylchedd a thân, Arolygiaeth Gofal Cymru, Arolygiaeth Iechyd Cymru

**Rôl yr Arolygiaethau:** gwerthuso'r lleoliad a'i systemau barnau/graddau, eu pŵer a sut y gallant gydweithio. Gallai hyn gynnwys arolygiadau ar y cyd neu arolygiadau ar y cyd lle ceir maes penodol o bryder, e.e. tân, diogelwch bwyd, iechyd yr amgylchedd

**Fel mater o drefn** gall gynnwys cyfarfodydd tîm, bob chwarter ac ati. Yn hanfodol, mae'n golygu na ddylid defnyddio'r system arolygu fel y catalydd ar gyfer sicrhau bod y lleoliad yn cydymffurfio. Dylai arferion gorau gael eu hystyried bob dydd.

**Y broses hunanasesu:** mae'r dogfennau hyn yn galluogi arolygiaethau i asesu barn gweithleoedd/lleoliadau am eu hansawdd yn erbyn pedair thema allweddol y fframwaith



arolygu cyn cynnal arolygiad. Mae hefyd yn galluogi'r lleoliad i werthuso ei ddarpariaeth a'i safonau.

Gall **systemau** gynnwys adeiladau a chyfarpar; polisïau; y bwyd a diod a ddarperir, gan gynnwys y canllawiau ar gyfer bwyta'n iach; iechyd a diogelwch, gan gynnwys cymorth cyntaf a diogelwch tân; niferoedd/cymarebau cydweithwyr, eu haddasrwydd a'u cymwysterau; rheoli systemau a chofnodion gwybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth gyfrinachol; gofynion y cwricwlwm ar gyfer babanod a phlant cyn oed ysgol; cofnodion goruchwylio; cynlluniau datblygiad personol ar gyfer staff

### *Deddfwriaeth gysylltiedig*

- Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2011
- Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010
- Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwyso) (Cymru) 2010
- Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Eithriadau) (Cymru) 2010
- Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed
- **https://careinspectorate.wales/sites/default/files/2018-01/160411regchildcarecy.pdf**
- Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg 2005.
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) **http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-youngpeople/rights/uncrc/?lang=cy**

***SGC cysylltiedig***

SCDCCLD0418: **Arwain y gwaith o ddiwygio polisïau/gweithdrefnau/arferion ar gyfer cofrestru**
SCDCCLD0422: **Arwain y gwaith o fonitro gweithdrefnau, polisïau ac arferion**
CFAMLD6: **Dyrannu a monitro cynnydd ac ansawdd gwaith**
SCDCCLD0433: **Paratoi'r lleoliad gofal plant ar gyfer arolygiadau rheoleiddiol**

***Adnoddau***

- Fframwaith arolygu gofal plant Arolygiaeth Gofal Cymru:
- https://arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2018-03/160613childcareframeworkcy.pdf
- Canllaw arolygu Arolygiaeth Gofal Cymru ar gyfer gofal plant a chwarae:
- **https://arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2018-03/160608childcareinspectionguidecy.pdf**
- Arolygiaeth Gofal Cymru: Codau ymarfer ar gyfer arolygu gwasanaethau gwarchod plant, gwasanaethau gofal dydd a gwasanaethau chwarae mynediad agored. *(Caiff y ddolen ei hychwanegu pan fydd y ddogfen ar gael)*
- Polisi ar sicrhau gwelliant a gorfodi Arolygiaeth Gofal Cymru.

# Pa feysydd pwnc fyddaf yn dysgu amdanyn nhw?

Mae pob uned yn y cymhwyster yn cynnwys meysydd dysgu sy'n cysylltu â theitl pob uned. Fel y dangosir ar y dudalen flaenorol, caiff y rhain eu cyflwyno ar ffurf Deilliannau Dysgu a Meini Prawf Asesu. Mae trosolwg o bob uned yn y cymhwyster **Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer** i'w weld isod:

| UNEDAU GORFODOL | | |
|---|---|---|
| **Uned** | **Crynodeb o'r Uned** | **Testunau dysgu** |
| **Uned 501: Arwain a rheoli ymarfer plentyn-ganolog** | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain a rheoli ymarfer plentyn-ganolog.<br><br>Mae'n adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o'r cymhwyster Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant. | Mae'n cynnwys testunau dysgu fel arwain a rheoli ymchwil ac ymarfer seiliedig ar dystiolaeth, hawliau plant, damcaniaethau datblygiad plant, dysgu, twf a datblygiad cyfannol, a chwarae, cynllunio, a chyfnodau trawsnewid. |
| **Uned 502: Arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol** | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i feithrin y galluoedd sydd eu hangen i arwain a rheoli perfformiad tîm.<br><br>Mae'n adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o'r cymhwyster Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant. | Mae'n cynnwys testunau dysgu fel arwain a rheoli diwylliannau cadarnhaol, recriwtio a dethol, cyfnod cynefino, datblygiad proffesiynol, goruchwylio ac adolygu perfformiad, gwrthdaro, dirprwyo, ac arloesedd a newid. |

| UNEDAU GORFODOL | | |
|---|---|---|
| **Uned** | **Crynodeb o'r Uned** | **Testunau dysgu** |
| **Uned 503: Arwain a rheoli ansawdd y gweithle/lleoliad** | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain a rheoli ansawdd y gweithle/lleoliad er mwyn bodloni gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol a gofynion y gweithle/lleoliad.<br><br>Mae'n adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o'r cymhwyster Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant. | Mae'n cynnwys testunau dysgu fel rheoli'r gweithle/lleoliad er mwyn bodloni gofynion o ran safonau ansawdd a dadansoddi gwybodaeth i wella'r gweithle/lleoliad. |
| **Uned 504: Ymarfer proffesiynol** | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i fyfyrio ar eu hymarfer proffesiynol a'i ddatblygu mewn rôl arwain a rheoli.<br><br>Mae'n adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o'r cymhwyster Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant. | Mae'n cynnwys testunau dysgu fel datblygu sgiliau arwain ac ymarfer moesegol, gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth, gofynion gwybodaeth, gofynion deddfwriaethol, safonau a Chodau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol. |
| **Uned 505: Arwain a rheoli ymarfer sy'n hybu'r broses o ddiogelu plant** | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i hybu'r broses o ddiogelu plant mewn swydd arwain a rheoli.<br><br>Mae'n adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o'r cymhwyster Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant. | Mae'n cynnwys testunau dysgu fel arwain a rheoli cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol, ac ymarfer. |
| **Uned 506: Arwain a rheoli iechyd, diogelwch a diogeledd (security) yn y gweithle/lleoliad** | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau i arwain a rheoli iechyd, diogelwch a diogeledd yn y gweithle/lleoliad. | Mae'n cynnwys testunau dysgu fel arwain a rheoli gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol, asesiadau risg, ac iechyd gwael sy'n gysylltiedig â gwaith. |

GRWP DEWISOL

| Uned | Crynodeb o'r Uned |
|---|---|
| Uned 507: Arwain a rheoli iechyd, llesiant a dysgu creadigol yn rhan o ddarpariaeth gofal plant | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain a rheoli iechyd, llesiant a dysgu creadigol plant o fewn y ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru. |
| Uned 508: Arwain a rheoli'r broses o gaffael iaith newydd drwy drochi | Mae’r uned hon yn cefnogi’r dysgwr i gefnogi a datblygu ei weithwyr er mwyn hybu’r gefnogaeth i blant gaffael iaith newydd drwy ddulliau trochi ieithyddol yn y gweithle/lleoliad. |
| Uned 509: Arwain a rheoli cefnogaeth i deuluoedd i ddatblygu sgiliau rhianta | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a’r sgiliau sydd eu hangen i arwain a rheoli cefnogaeth i deuluoedd/gofalwyr i feithrin sgiliau rhianta. Yng nghyd-destun yr uned hon, mae gweithwyr yn cyfeirio at yr aelodau o’r tîm sydd â chysylltiad wyneb yn wyneb â theuluoedd/gofalwyr. |
| Uned 510: Arwain a rheoli lleferydd, iaith a sgiliau cyfathrebu | Mae’r uned hon yn ymdrin â’r sgiliau sydd eu hangen i arwain a rheoli lleoliadau sy’n hybu ac yn cefnogi plant wrth ddatblygu lleferydd, iaith a sgiliau cyfathrebu a nodi achosion lle y disgwylir y bydd y datblygiad y tu allan i’r amrediad ddisgwyliedig. Yng nghyd-destun yr uned hon, mae’r term ‘plant’ yn cyfeirio at blant a phobl ifanc. |
| Uned 511: Arwain a rheoli gwasanaethau i blant ag anghenion ychwanegol | Bydd yr uned hon yn helpu’r dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a’r sgiliau i arwain a rheoli gwasanaethau i blant ag anghenion ychwanegol. |
| Uned 512: Arwain a rheoli gwelliant parhaus drwy'r prosesau rheoleiddio | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau i roi gofynion rheoleiddio ar waith yng Nghymru. Mae'n ymdrin ag ymwybyddiaeth o rôl arolygiaethau. |

| Uned | Crynodeb o'r Uned |
|---|---|
| Uned 543: Arwain a rheoli trefniadau gweithio rhyngbroffesiynol | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain a rheoli trefniadau gweithio rhyngbroffesiynol. Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'unigolyn' yn cyfeirio at oedolion a/neu blant. Mewn timau rhyngbroffesiynol yn cynnwys gwahanol broffesiynau a grwpiau galwedigaethol sy'n cydweithio i wneud asesiadau a phenderfyniadau. |
| Uned 544: Arwain gwaith gyda gwirfoddolwyr | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain gwaith gyda gwirfoddolwyr yn y maes darparu gwasanaethau. |
| Uned 545: Arwain a rheoli cynllunio a phrosesau busnes | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain a rheoli gwaith cynllunio a phrosesau busnes. Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'unigolion' yn cyfeirio at oedolion a/neu blant. |
| Uned 546: Arwain a rheoli tîm therapi | Mae'r uned hon yn ymdrin â'r sgiliau sydd eu hangen i arwain tîm therapi, neu is-arbenigedd. Bydd y gwasanaeth yn ymdrin yn uniongyrchol â chleifion, a bydd yr unigolyn yn gyfrifol am dîm sy'n darparu gofal. Yng nghyd-destun yr uned hon, gall cleifion gynnwys plant a/neu oedolion gan ddibynnu ar ffocws y tîm therapi. |
| Uned 547: Arwain a rheoli gwasanaethau iechyd plant | Mae'r uned hon yn ymdrin â'r sgiliau sydd eu hangen i reoli ac arwain gwasanaeth iechyd plant. Yng nghyd-destun yr uned hon, mae plant yn cyfeirio at y rheini rhwng 0 a 19 oed (gan gynnwys y rheini sy'n cael gofal gan wasanaethau cynenedigol, gwasanaethau cleifion mewnol a gwasanaethau yn y gymuned). |
| Uned 415: Sgiliau astudio | Nod yr uned hon yw galluogi dysgwyr i ddeall sut i ddefnyddio sgiliau astudio a'u cymhwyso er mwyn cefnogi eu gwaith. |

# Beth mae'n rhaid i mi ei wneud i gyflawni'r cymhwyster hwn?

Er mwyn cyflawni'r cymhwyster **Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer** bydd angen i chi wneud yn canlynol:

1. gweithio'n agos gyda'ch **tiwtor/athro/aseswr/mentor yn y gweithle/cyflogwr**
2. bod yn barod i ddysgu am bethau newydd sy'n ymwneud â gweithio ym maes blynyddoedd cynnar a gofal plant, a chael profiadau ohonynt
3. paratoi ar gyfer eich asesiadau a'u cwblhau – mae mwy o wybodaeth am asesiadau ar dudalennau 33-35.

Drwy'r cymhwyster **Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer** byddwch chi'n dod i gysylltiad â, ac yn cael eich cefnogi gan, bobl mewn amrywiaeth o rolau gwahanol:

| ROLAU | CWMPAS A SWYDDOGAETH |
|---|---|
| Tiwtor | darparu gwybodaeth a dealltwriaeth o gynnwys y cymhwyster. Gall y tiwtor hwyluso'r broses asesu. |
| Aseswr mewnol | aseswr cymwysedig – yr aseswr mewnol fydd yn gyfrifol am bennu canlyniad y tasgau gan ddefnyddio meini prawf llwyddo a osodwyd yn allanol a gan gwblhau arsylwadau ffurfiannol a chrynodol. |
| Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol | sicrhau bod y broses o asesu tystiolaeth o ansawdd cyson a phriodol. |
| Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol | yn gyfrifol am gadarnhau bod y gwaith o gynllunio, cyflwyno ac asesu'r tasgau a asesir yn fewnol wedi'i wneud yn unol â pholisïau a gweithdrefnau City & Guilds. |
| Aseswr Allanol City & Guilds* | aseswr cymwysedig sy'n gyfrifol am un arsylwad o ymarfer, cynnal trafodaeth broffesiynol a gwneud y dyfarniad asesu terfynol. |
| Aseswr Arweiniol City & Guilds* | bydd yn gyfrifol am samplu a safoni'r dyfarniad asesu a bennir gan aseswyr allanol. |

*** Mae'r rolau hyn wedi'u penodi gan City & Guilds – mae'n bosib y byddwch chi'n cwrdd â'r bobl hyn tuag at ddiwedd eich cymhwyster.**

# Ffocws ar arweinyddiaeth

Mae'r cymhwyster hwn ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio mewn rôl reoli mewn lleoliadau gofal plant wedi'u rheoleiddio gyda theuluoedd a phlant o dan 8 oed a gwasanaethau plant y GIG ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda theuluoedd a phlant 0-19 oed. Mae'r cymhwyster yn seiliedig ar ymarfer ac yn asesu gwybodaeth ac ymarfer dysgwyr. Lluniwyd y cymhwyster ar gyfer dysgwyr sy'n dysgu yn y gweithle. Bydd y cymhwyster yn asesu gwybodaeth ac ymarfer dysgwyr drwy eu gwaith.

Drwy'r cymhwyster **Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer** mae pwyslais ar ddatblygu eich sgiliau arwain a rheoli fel y gallwch chi ddangos sut rydych chi'n 'arwain a rheoli'.

Mae pob uned yn canolbwyntio ar eich gallu i arwain a rheoli yn hytrach na hybu neu gefnogi. O ganlyniad, mae'r deilliannau dysgu drwy'r cymhwyster yn gofyn i chi weithio ar lefel cyfrifoldeb uwch.

| | | |
|---|---|---|
| e.e. | Uned 501 | Deilliant dysgu 1 – Arwain y defnydd o ymchwil ac ymarfer y mae tystiolaeth yn sail iddo ar gyfer datblygiad cyfannol a llesiant plant. |
| | Uned 510 | Deilliant dysgu 4 – Arwain a rheoli ymarfer sy'n cefnogi anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. |

Caiff hyn ei arddangos yn llawer o'r meini prawf asesu hefyd.

| | | |
|---|---|---|
| e.e. | Uned 501 | Meini prawf asesu 1.4 – Arwain y defnydd o ymchwil, tystiolaeth, damcaniaethau, modelau a fframweithiau er mwyn llywio ymarfer sy'n cefnogi datblygiad cyfannol a llesiant plant. |
| | Uned 502 | Meini prawf asesu 3.1 – Rhoi polisïau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith sy'n cefnogi prosesau sefydlu seiliedig ar werthoedd. |
| | Uned 503 | Meini prawf asesu 2.6 – Arwain a rheoli'r broses o roi cynlluniau gweithredu y cytunwyd arnynt ar waith. |
| | Uned 505 | Meini prawf asesu 3.7 – Defnyddio trefniadau goruchwylio a chefnogi i ystyried effaith achosion a amheuir neu a ddatgelir o niwed neu gam-drin ar weithwyr, arnoch chi eich hun ac ar eraill. |

# Ymgysylltu â chyflogwyr

Er mwyn cyflawni'r cymhwyster **Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer** rhaid eich bod yn gweithio mewn rôl arwain neu reoli o fewn lleoliad gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. Er nad yw'n ofynnol, mae'r cymhwyster hwn yn rhoi cyfle i'ch cyflogwr fod yn rhan fawr o'ch dysgu, datblygiad a chynnydd drwy'r cymhwyster ac mae hwn yn rhywbeth y dylid ei annog a'i gefnogi.

## Beth yw mentor yn y gweithle?

Efallai y bydd mentor yn y gweithle yn cael ei benodi ar eich cyfer gan eich cyflogwr. Nid yw'n ofyniad gorfodol ar gyfer y cymhwyster hwn, ond mae rhai cyflogwyr a darparwyr yn cydnabod bod ganddo rôl bwysig mewn dysgu ac asesu yn y gweithle. Bydd mentor yn y gweithle yn eich helpu chi i wneud cysylltiadau rhwng yr hyn rydych yn ei ddysgu yn yr ystafell ddosbarth a'r ffordd mae'n ymwneud â'r byd gwaith. Gallen nhw hefyd eich helpu chi i nodi unrhyw gyfleoedd dysgu sy'n codi wrth weithio a'ch helpu i wneud y gorau ohonynt. Gall eich aseswr mewnol hefyd eich cefnogi fel mentor.

## Nid oes swydd gen i, alla i gwblhau'r cymhwyster hwn o hyd?

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gynllunio ar gyfer unigolion sy'n gweithio mewn rôl arwain neu reoli yn y sector Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant. Os nad ydych chi'n cael eich cyflogi ar hyn o bryd, rydym yn argymell yn gryf eich bod yn ystyried cwblhau'r cymhwyster canlynol:

- Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli ym maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant.

# Sut olwg fydd ar fy nhaith trwy'r cymhwyster?

### Cam 1 – Cyn cyflwyno

- Asesu cychwynnol a sefydlu

### Cam 2 – Cyfnod dysgu

- Cyfnod dysgu ffurfiol
- Arwain at asesiad crynodol

### Cam 3 – Cyfnod yr Asesiad Crynodol

- Fydd y cymhwyster yn cael ei asesu trwy gyfres o dasgau wedi'u gosod yn allanol

### Cam 4 – Cwblhau

- Cyflwyno graddau asesu i City & Guilds
- Cadarnhau penderfyniad

## Cam 1 – Cyn cyflwyno

- **Cwblhau'r cymhwyster Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli ym maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant**

*Cyn ymgymryd â'r cymhwyster hwn, mae gofyn eich bod wedi cwblhau'r cymhwyster Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli ym maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant*

- **Ymrestru cychwynnol a Sefydlu**

- **Dewis unedau**

*Byddwch yn trafod yr opsiynau sydd ar gael i gwblhau'r cymhwyster gyda'ch aseswr/rheolwr/cyflogwr, e.e. dewis unedau dewisol*




Mae'r broses o gyflwyno Lefel 5 yn **adeiladu ar** gynnwys Lefel 4 ond nid yw'n ceisio ei ailadrodd yn ddiangen. Gall fod yn ddefnyddiol atgoffa neu ailadrodd elfennau penodol o'r cynnwys, ond dylai'r broses gyflwyno ganolbwyntio'n bennaf ar ddatblygu sgiliau Lefel 5, gan ddeall bod y dysgwyr eisoes yn meddu ar sail wybodaeth gadarn.

Byddwch chi'n cwblhau asesiad cychwynnol cyn cychwyn eich rhaglen er mwyn nodi:

- a oes gennych chi anghenion hyfforddi penodol
- unrhyw gefnogaeth ac arweiniad y gall fod ei angen arnoch chi wrth weithio tuag at eich cymhwyster
- y math a'r lefel briodol o gymhwyster.

Argymhellir y dylai canolfannau gynnig rhaglen sefydlu fel eich bod yn deall gofynion y cymhwyster, eich cyfrifoldebau fel dysgwr, a chyfrifoldebau'r ganolfan yn llawn. Gall y wybodaeth hon gael ei chofnodi ar gontract dysgu. Mae'n fanteisiol iawn i'ch rheolwr/cyflogwr fod yn rhan o, neu gyfrannu at, y drafodaeth hon.

Byddai'n ddefnyddiol trafod â'ch tiwtor/aseswr yr hyn rydych chi'n gobeithio ei gyflawni o ymgymryd â'r cymhwyster hwn a byddai gwerth mewn cwblhau datganiad personol ar ddechrau'r rhaglen, lle rydych chi'n ystyried eich nodau ar gyfer yr hyn rydych chi'n gobeithio ei gyflawni o gwblhau'r rhaglen, a chanolbwyntio ar y rhain drwy'r broses o gyflwyno.

Gall eich coleg neu eich darparwr yn y gweithle ofyn i chi gymryd rhan mewn dysgu ychwanegol sy'n canolbwyntio ar yr amrywiaeth ehangach o sgiliau y gall fod angen arnoch chi er mwyn cwblhau'r cymhwyster hwn, e.e. cyflwyniad ar sgiliau ymchwil ac astudio. Bydd cyflwyniad i'r sgiliau hyn o fantais fawr er mwyn eich cefnogi chi drwy'r broses gyflwyno, tasgau asesu a sefydlu profiad dysgu wedi'i gyfoethogi.

## Pa adnoddau fydd eu hangen arnaf?

Rhaid i chi sicrhau bod gennych chi amrywiaeth addas o adnoddau er mwyn cyflawni'r tasgau asesu. Bydd hyn yn cael ei drafod yn ystod eich sefydliad a dylech chi rannu'r wybodaeth hon â'ch rheolwr/cyflogwr.

- **Adnoddau staff –** mae angen i chi gael eich arsylwi yn rheoli pobl eraill fel rhan o'r dystiolaeth ar gyfer y cymhwyster hwn; dylai rheolwyr/cyflogwyr sicrhau eich bod yn cael cyfle, at ddibenion asesu, i ddefnyddio adnoddau staff fel y bo angen er mwyn gweithredu eich project busnes. Dylid rhesymu a chytuno ar lefel ofynnol yr adnodd fel rhan o gymeradwyo cynllun y project busnes.
- **Amgylchedd –** disgwylir i'r holl weithgareddau gael eu cyflawni fel sy'n digwydd mewn ymarfer gwaith arferol gan gynnwys y rhai a gyflawnir oddi ar y safle.

## Pa unedau fyddaf yn eu cwblhau?

Er mwyn cyflawni'r cymhwyster **Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer**, rhaid i chi ennill cyfanswm o 120 o gredydau **o leiaf**.

- rhaid ennill 90 credyd o'r grŵp gorfodol
- rhaid ennill o leiaf 30 o gredydau o'r grŵp dewisol.

Mae'n fanteisiol iawn i'ch rheolwr/cyflogwr gymryd rhan yn y broses ddewis hon. Siaradwch â'ch rheolwr am ba unedau dewisol sydd fwyaf addas ar gyfer eich rôl yn y lleoliad ac am ei weledigaeth o'r gwasanaethau a ddarperir.

# Beth yw credydau?

Rydym wedi dyfarnu gwerth credyd i bob uned. Gellir dod o hyd i'r gwerthoedd hyn yn y tablau isod ac yn llawlyfr y cymhwyster. Mae'r credydau a ddyfarnwyd i uned yn adlewyrchu lefel a swm y wybodaeth, y ddealltwriaeth, yr ymddygiadau a'r sgiliau, a fydd yn cael eu cyflawni drwy gwblhau'r uned.

| Rhif yr Uned | Teitl yr uned | ODA | Credyd |
|---|---|---|---|
| Grŵp Gorfodol | | | |
| 501 | Arwain a rheoli ymarfer plentyn-ganolog | 60 | 20 |
| 502 | Arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol | 65 | 18 |
| 503 | Arwain a rheoli ansawdd y gweithle/lleoliad | 70 | 16 |
| 504 | Ymarfer proffesiynol | 50 | 12 |
| 505 | Arwain a rheoli ymarfer sy'n hybu'r broses o ddiogelu plant | 60 | 12 |
| 506 | Arwain a rheoli iechyd, diogelwch a diogeledd yn y gweithle/lleoliad | 60 | 12 |

| Rhif yr Uned | Teitl yr uned | ODA | Credyd |
|---|---|---|---|
| 507 | Arwain a rheoli iechyd, llesiant a dysgu creadigol yn rhan o ddarpariaeth gofal plant | 40 | 14 |
| 508 | Arwain a rheoli caffaeliad iaith newydd drwy drochi | 20 | 9 |
| 509 | Arwain a rheoli cefnogaeth i deuluoedd i ddatblygu sgiliau rhianta | 50 | 21 |
| 510 | Lead and manage speech, language and communication skills | 50 | 20 |
| 511 | Arwain a rheoli gwasanaethau i blant ag anghenion ychwanegol | 50 | 18 |
| 512 | Arwain a rheoli gwelliant parhaus drwy'r prosesau rheoleiddio | 30 | 6 |
| 543 | Arwain a rheoli trefniadau gweithio rhyngbroffesiynol | 20 | 10 |
| 544 | Arwain gwaith gyda gwirfoddolwyr | 10 | 9 |
| 545 | Arwain a rheoli cynllunio a phrosesau busnes | 20 | 12 |
| 546 | Arwain a rheoli tîm therapi | 80 | 20 |
| 547 | Arwain a rheoli gwasanaethau iechyd plant | 50 | 30 |
| 415 | Sgiliau astudio | 30 | 8 |

## Grŵp dewisol

Mae 12 uned yn y grŵp dewisol a rhaid i chi ddewis **o leiaf un uned ddewisol**. Rhaid i'ch unedau dewisol fod yn gywerth â chyfanswm o 30 credyd **o leiaf**. Dylech chi ddewis unedau sy'n berthnasol i'ch rôl ac i'r unigolion rydych chi'n gofalu amdanyn nhw yn eich sefydliad/lleoliad. Mae'n fanteisiol iawn i'ch rheolwr/cyflogwr gymryd rhan yn y broses ddewis hon.

Mae llawer o'r unedau hyn yn canolbwyntio ar arwain a rheoli gwasanaethau penodol o fewn lleoliadau/gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant. Mae uned 507 yn edrych ar iechyd, llesiant a dysgu creadigol yn rhan o ddarpariaeth gofal plant, mae uned 508 yn archwilio'r broses o gaffael iaith newydd drwy drochi ac mae uned 510 yn ymwneud ag arwain a rheoli lleferydd, iaith a sgiliau cyfathrebu.

Mae yna hefyd unedau yn y grŵp hwn sy'n canolbwyntio ar arwain a rheoli pobl. Yn uned 546, mae gofyn i chi arwain a rheoli tîm therapi, ac yn uned 547, mae gofyn i chi arwain a rheoli gwasanaethau iechyd plant. Yn uned 543, mae gofyn i chi arwain a rheoli trefniadau gweithio rhyngbroffesiynol, ac yn uned 544, mae gofyn i chi arwain gwaith gyda gwirfoddolwyr.

Er mwyn cwblhau uned yn y grŵp hwn, rhaid i chi arwain a rheoli'r gwasanaethau perthnasol. Siaradwch â'ch rheolwr/cyflogwr am ei weledigaeth o'r gwasanaethau a ddarperir, pa unedau dewisol sydd fwyaf addas ar gyfer eich rôl chi yn y lleoliad, a thrafodwch pa mor addas yw'r unedau rydych chi'n eu hystyried.

- **Cyfnod dysgu ffurfiol**

*Byddwch chi’n ymgymryd â dysgu a hyfforddi yn y gwaith, ac asesu ffurfiannol parhaus*

- **Mynediad at asesiad crynodol – arsylwadau**

*Byddwch chi’n cael eich arsylwi yn ymarfer gan eich aseswr ar o leiaf dau achlysur ffurfiol*

*Yn dilyn cwblhau’r arsylwadau, byddwch chi’n trafod ac yn cytuno â’ch aseswr/rheolwr/cyflogwr ar ba mor barod ydych chi ar gyfer cael eich asesu.*

**Asesiad cychwynnol cadarn a sefydlu, gan gynnwys Cydnabod Dysgu Blaenorol**

**Datblygu a chyfnerthu'r wybodaeth, dealltwriaeth, ymddygiadau a sgiliau**

Byddwch yn adeiladu ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o Lefel 4 ac yn datblygu cymwyseddau a fydd yn egluro sut rydych yn defnyddio hwn ym mhob agwedd o'ch ymarfer.

**Penderfynu ar barodrwydd ar gyfer asesu: o leiaf dau arsylwad yn seiliedig ar ymarfer gan eich Aseswr Mewnol**

Bydd yr arsylwadau hyn yn gweithredu fel mynediad ar gyfer derbyn eich bod chi wedi'ch paratoi'n briodol i roi cynnig ar yr asesiad crynodol.

**Ffocysu ar yr unedau gorfodol er mwyn dangos hyder ymarferol**

Dylai'r aseswr mewnol ddefnyddio'r deilliannau dysgu o fewn cynnwys yr unedau gorfodol er mwyn cefnogi cadarnhad o'ch gallu i arddangos ymarfer yn y meysydd allweddol hyn*.

## *Meysydd allweddol

- Arwain a rheoli ymarfer plentyn-ganolog
- Arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol
- Arwain a rheoli ansawdd y gweithle/lleoliad
- Ymarfer proffesiynol
- Arwain a rheoli ymarfer sy'n hybu'r broses o ddiogelu plant
- Arwain a rheoli iechyd, diogelwch a diogeledd (security) yn y gweithle/lleoliad.

## Cyfnod dysgu ffurfiol

Yn ystod eich cyfnod dysgu, byddwch chi'n meithrin 'pecyn cymorth' o wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau er mwyn i chi arwain a rheoli ymarfer yn gymwys yn eich sefydliad/lleoliad. Bydd eich dysgu yn eich cefnogi chi i gymryd cyfrifoldeb dros drosglwyddo eich gwybodaeth, eich dealltwriaeth a'ch sgiliau i ymarfer, meithrin yr annibyniaeth, yr ymreolaeth a'r hyder sydd eu hangen mewn rolau swyddi ar y lefel hon.

## Asesu ffurfiannol

Rydym yn argymell bod eich tiwtor/aseswr mewnol yn gosod tasgau byrrach, ffurfiannol yn ystod y cyfnod dysgu hwn. Bydd y tasgau hyn yn golygu y cewch eich cefnogi wrth gymhwyso'r hyn yr ydych wedi dysgu yn barod yn fwy annibynnol, gan ddod â hyn at ei gilydd mewn ffordd debyg, fel eich bod yn gyfarwydd â fformat, amodau a disgwyliadau yr asesiad. Rydym yn eich annog chi hefyd i fyfyrio ar y gweithgareddau asesu damcaniaethol y gwnaethoch chi ymgymryd â nhw fel rhan o'r cymhwyster **Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli ym maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant** i gefnogi eich asesiad yn ymarfer ar Lefel 5.

## Paratoi ar gyfer asesiad

Cyn dechrau'r asesiad crynodol, bydd eich aseswr mewnol yn cadarnhau pa mor 'barod' ydych chi drwy ei weithgareddau asesu ffurfiannol.

Bydd eich aseswr mewnol yn cynnal **o leiaf** dau arsylwad yn seiliedig ar ymarfer er mwyn cefnogi'r penderfyniad eich bod yn barod ar gyfer yr asesiad crynodol. Bydd yr arsylwadau hyn yn gweithredu fel 'mynediad' ar gyfer derbyn eich bod chi wedi'ch paratoi'n briodol i roi cynnig ar yr asesiad crynodol. Bydd yr arsylwadau'n seiliedig ar unedau gorfodol y cymhwyster.

## Beth sy'n digwydd os nad ydw i'n barod?

Os nad yw eich aseswr yn credu eich bod yn barod yn dilyn unrhyw un o'r **ddau** arsylwad, bydd yn trafod â chi pa ddysgu neu hyfforddiant ychwanegol sydd ei angen, a dylai drefnu pwynt cyswllt arall er mwyn cadarnhau bod hyn wedi digwydd. Os **nad** yw'r aseswr mewnol yn fodlon â'ch cynnydd ar y cam hwn, dylid trefnu arsylwad(au) ymarferol pellach.

## Beth sy'n digwydd pan ydw i'n barod?

Os yw eich aseswr mewnol yn hyderus eich bod yn barod yn dilyn eich **dau** arsylwad, byddan nhw'n cyflwyno'r asesiad i chi. Mae rhyddhau'r asesiad i chi yn cadarnhau bod yr aseswr mewnol yn hyderus eich bod yn gweithio mewn ffordd sy'n dangos y gwerthoedd, yr egwyddorion a'r ymddygiadau sydd i'w disgwyl gan arweinydd mewn ymarfer yn y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant.

# Cam 3 – Cyfnod asesu crynodol

*Unwaith y byddwch chi a'ch aseswr/rheolwr/cyflogwr wedi cytuno eich bod yn barod i gael eich asesu, byddwch chi'n dechrau paratoi ar gyfer eich asesiad terfynol, sy'n cynnwys:*

- **portffolio o dystiolaeth**
- **project busnes**
- **trafodaeth broffesiynol**

*Mae'r asesiad yn gyfannol, sy'n golygu y bydd eich tystiolaeth yn cael ei chasglu o sefyllfaoedd gweithio go iawn sy'n dangos eich bod yn gallu gweithio'n hyderus ac yn gyson ar draws pob agwedd ar y cymhwyster ar fwy nag un achlysur*

# Sut bydd fy nghymhwyster yn cael ei asesu?

Asesir y cymhwyster **Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer** drwy gyfres o dasgau a osodir yn allanol. Bydd yr aseswyr perthnasol yn cyflwyno pob gradd asesu i City & Guilds, a fydd yn dyfarnu gradd cymhwyster gyffredinol os cyflawnir pob un o'r tair tasg yn llwyddiannus.

| TASG ASESU | HYD | PWRPAS | UNEDAU | ASESWR MEWNOL/ RÔL Y CYFLOGWR/ ASESIAD | GWEITHGAREDD ASESU |
|---|---|---|---|---|---|
| Tasg 1: Portffolio | Yn cael ei gynnal trwy gydol y cymhwyster | Dangos tystiolaeth sy'n deillio o'r cyfnod asesu – **crynodol**.<br><br>Casglu tystiolaeth na chasglwyd yn ystod y project busnes. | Gorfodol a/neu ddewisol | Darparu cefnogaeth ac arweiniad. | Asesir yn rhan o'r drafodaeth broffesiynol a fydd yn cael ei chynnal gyda'r Aseswr Allanol. |
| Tasg 2: Project Busnes<br><br>2a – Rhesymeg<br><br>2b – Cynllun<br><br>2c – Gweithredu<br><br>2ch – Gwerthuso | Tua 8–9 mis | Sut mae'r ymgeisydd:<br><br>• yn cefnogi, yn datblygu ac yn gwella darpariaeth ar gyfer unigolion, a phrofiad yr unigolion hynny, yn ei sefydliad/lleoliad<br><br>• yn gweithio gyda phobl eraill ac yn eu rheoli yn y sefydliad/lleoliad er mwyn gweithredu'r project yn llwyddiannus. | Gorfodol a dewisol | 2a – cyfarfod cysyniad<br><br>2b – cyfarfod cynllunio project<br><br>2c – o leiaf dau arsylwad gan yr Aseswr Mewnol (t.19).<br><br>Dylai'r aseswr mewnol hwyluso 'archwiliadau' rheolaidd yn ystod y cyfnod hwn neu'r rheolwr drwy oruchwylio. | 2a – rhesymeg; ffurflen cysyniad o'r cynnig<br><br>2b – cynllun project busnes wedi'i gwblhau; Ffurflen cymeradwyo project busnes<br><br>2c – o leiaf un arsylwad gan Aseswr Allanol (**crynodol**); log myfyriol beirniadol<br><br>2ch – gwerthusiad cyffredinol o'r project busnes |

| TASG ASESU | HYD | PWRPAS | UNEDAU | ASESWR MEWNOL/ RÔL Y CYFLOGWR/ ASESIAD | GWEITHGAREDD ASESU |
|---|---|---|---|---|---|
| Tasg 3: Trafodaeth Broffesiynol | Crynodol.<br><br>Hyd at 75 munud | Bydd y drafodaeth yn canolbwyntio ar yr hyn rydych chi wedi'i ddysgu a'r datblygiad sydd wedi digwydd fel rhan o'r cymhwyster. Caiff hyn ei ategu gan y gwaith a'r gweithgareddau a gwblhawyd fel rhan o raglen ddysgu ac asesiadau'r ymgeisydd. | Gorfodol a dewisol | Rhoi arweiniad ar fformat y drafodaeth a bydd yn cefnogi gyda gweithgareddau mentora er mwyn paratoi'r ymgeisydd ar gyfer cynnal y drafodaeth. | Trafodaeth a arweiniwyd gan yr ymgeisydd gyda'r Aseswr Allanol.<br><br>Rhaid i'r ymgeisydd ymateb i'r pwyntiau trafod a'r cwestiynau yn annibynnol heb gymorth, a chydymffurfio â'r amodau perthnasol os yw'r asesiad yn cael ei gynnal o bell.<br><br>Bydd unrhyw nodiadau paratoi y cyfeirir atyn nhw yn ystod y drafodaeth yn cael eu defnyddio fel tystiolaeth. |

**Taith asesu lawn 9-12 mis yn dibynnu ar gontract cyflogaeth**

Dylai eich aseswr mewnol gyflwyno'r asesiad i chi pan y cytunwyd eich bod yn barod amdano.

Mae disgwyl i bob tasg asesu fod wedi'u cynnal o fewn cyfnod o 9-12 mis. Bydd y cyfnod asesu hwn yn dechrau o gychwyn y cyfarfod trafod cysyniad ac mae'n cynnwys treulio tua 8-9 mis ar gynhyrchu tystiolaeth ar gyfer y project busnes ac amser i gwblhau'r drafodaeth broffesiynol.

## Beth fydd yn rhaid i mi ei wneud?

Cynlluniwyd yr asesiadau ar gyfer y cymhwyster hwn i roi cyfle i chi ddangos sut yr ydych yn defnyddio eich sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth o arwain a rheoli yng nghyd-destun sefyllfaoedd gwaith go iawn yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r tasgau'n ei gwneud yn ofynnol i chi ystyried y ffordd y byddech yn ymddwyn fel arweinydd a rheolwr, a dylech ymgymryd â'r tasgau o'r safbwynt hwn, gan gymhwyso'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth rydych chi wedi'u meithrin o'ch rhaglen ddysgu i ymateb i'r tasgau.

Lle bo'n bosibl, rydym yn argymell eich bod yn defnyddio eich profiad a'ch myfyrdodau eich hunain o brofiad blaenorol yn y sector Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant er mwyn ategu eich ymatebion.

Os byddwch chi'n cyfeirio at unrhyw brofiadau presennol neu flaenorol sy'n ymwneud â gweithio gydag unigolion neu eraill, mae'n rhaid i chi sicrhau nad oes modd adnabod unrhyw unigolion na sefydliadau/lleoliadau rydych chi'n cyfeirio atyn nhw ym mhob un o'ch tasgau asesu. Dylai hyn gynnwys gofalu nad ydych chi'n defnyddio cyfeiriadau neu wybodaeth benodol a allai, yn awtomatig, ei gwneud yn hawdd adnabod sefydliad/lleoliad, unigolyn a gefnogir, neu unigolyn arall.

Bydd yr aseswyr perthnasol yn cyflwyno'r tair gradd asesu i City & Guilds, a fydd yn dyfarnu gradd cymhwyster gyffredinol os cyflawnir pob un o'r tair tasg yn llwyddiannus.

## Dull asesu

Bydd y cymhwyster **Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer** yn cael ei asesu drwy gyfres o weithgareddau asesu.

- Bydd **portffolio o dystiolaeth** yn cael ei ddefnyddio i gasglu tystiolaeth asesu ar gyfer deilliannau dysgu lle na fydd cyfleoedd ymarferol yn cael eu cyflwyno o bosibl drwy'r project busnes. Bydd hyn yn cynnwys meysydd o'r unedau gorfodol a dewisol.
- Bydd **project busnes** yn cael ei ddefnyddio i gasglu tystiolaeth asesu ar gyfer y rhan fwyaf o'r cynnwys gorfodol, yn ogystal â'r unedau dewisol lle y bo hynny'n bosibl. Fel rhan o'r project, bydd angen i chi wneud y canlynol:
  - nodi cyfle i weithredu darpariaeth/menter newydd neu ddiwygiedig yn y sefydliad/lleoliad
  - datblygu cynllun project ar gyfer gweithredu darpariaeth/menter newydd neu ddiwygiedig yn y sefydliad/lleoliad
  - gweithredu'r ddarpariaeth/menter newydd neu ddiwygiedig
  - gwerthuso canlyniad y broses weithredu.
- Mae'r dull asesu yn dod i ben drwy werthusiad terfynol gennych o'ch gweithgareddau, ar ffurf **trafodaeth broffesiynol** a gynhelir gydag aseswr allanol.

**Ni chaniateir defnyddio asesiad ymarferol wedi'i efelychu fel tystiolaeth ar gyfer y cymhwyster hwn. Gall sefyllfaoedd neu weithgareddau wedi'u hefelychu fod yn ddefnyddiol i ategu gweithgareddau asesu ffurfiannol, ond dylai tystiolaeth ar gyfer asesiad crynodol adlewyrchu'r ymarfer go iawn a wneir gennych chi.**

## Tasg 1: Portffolio o dystiolaeth

Mae angen i chi gadw portffolio o dystiolaeth drwy gydol y cyfnod asesu. Bwriad y portffolio yw cadw tystiolaeth o ddeilliannau na fyddai tystiolaeth uniongyrchol ohonyn nhw drwy eich project busnes.

Gall hyn gynnwys meysydd o'r cynnwys gorfodol ac unrhyw unedau dewisol rydych chi'n ymgymryd â nhw fel rhan o'ch rhaglen ddysgu. Gallech chi hefyd ddefnyddio'r portffolio i roi enghreifftiau o dystiolaeth sy'n dangos gweithgareddau a chyflawniadau allweddol rydych chi wedi ymgymryd â nhw fel rhan o'ch ymarfer drwy gydol y cyfnod asesu.

## Tasg 2: Project busnes

Mae angen i chi **ymgymryd â ac arwain ar** broject busnes yn eich sefydliad/lleoliad.  Dylid cynnal y project busnes dros gyfnod o tua 8-9 mis. Mae hwn wedi'i osod i roi digon o amser i nodi cyfle, cynllunio a gweithredu, ac yna gwerthuso'r canlyniadau o weithredu'r ddarpariaeth neu'r fenter newydd/diwygiedig.

Rhaid i chi ystyried cynnwys yr unedau dewisol rydych chi'n eu cyflawni fel rhan o'r cymhwyster a sut gallech chi ddangos eich ymarfer o'r unedau hyn yn eich project busnes. Mae hyn yn cynnwys sut rydych chi wedi ystyried a defnyddio unrhyw ddamcaniaethau, modelau ac ymchwil sy'n gysylltiedig â meysydd cynnwys yr uned ddewisol fel rhan o'r gwaith o ddatblygu a gweithredu eich project busnes.

Dylai eich aseswr mewnol a rheolwr/cyflogwr gadarnhau â chi yn ystod y cyfarfod trafod cysyniad cychwynnol y disgwyliadau o ran y ffrâm amser y maen nhw'n disgwyl i'r asesiad ddigwydd ynddi, yn seiliedig ar eich rôl. Pe cytunir y bydd yr asesiad cyfan yn cymryd mwy na 9 mis, dylid cofnodi'r penderfyniad hwn, a dylid darparu rhesymeg i gadarnhau pam bod y dull hwn wedi'i gytuno.

## Tasg 3: Trafodaeth broffesiynol

Byddwch chi'n cael eich gwahodd i fynychu trafodaeth broffesiynol i drafod gwaith sydd wedi'i gwblhau fel rhan o'ch portffolio a'ch project busnes. Cynhelir y drafodaeth broffesiynol gydag aseswr allanol.

Bydd tystiolaeth o'ch portffolio a'ch project busnes yn cael ei chyflwyno i'r aseswr allanol, a fydd yn ei defnyddio i baratoi ar gyfer eich trafodaeth.

## Pa dystiolaeth gallaf i ei defnyddio yn fy mhortffolio?

Bydd tystiolaeth ychwanegol yn cael ei chasglu drwy brosesau arferol y gweithle, gan gynnwys tystiolaeth gan eich cyflogwr neu fentor yn y gweithle.

- Tystion arbenigol
- Tystiolaeth tystion
- Dogfennau/cynhyrchion y gweithle
- Cyfrifon/logiau yr ymgeisydd/myfyriol
- Ymatebion i gwestiynau
- Astudiaethau achos cefnogol.

## Tyst Arbenigol

Lle y defnyddir tystion arbenigol i ddarparu tystiolaeth gefnogol fel rhan o'r portffolio, rhaid eu bod:

- yn meddu ar wybodaeth ddigonol am yr unedau y byddant yn rhoi tystiolaeth ar eu cyfer
- yn alwedigaethol gymwys yn eu maes arbenigedd i'r un lefel o leiaf â'r uned y byddant yn rhoi tystiolaeth ar ei chyfer
- yn meddu naill ai ar gymhwyster asesu perfformiad yn y gweithle neu fod wedi gweithio mewn swydd broffesiynol sy'n cynnwys gwerthuso ymarfer bob dydd staff.

# Log myfyriol

Mae angen i chi gadw log myfyriol ochr yn ochr â gweithredu'r project busnes, sy'n cyfleu eich gweithgareddau a'ch profiadau. Nid dyddiadur yw hwn i nodi naratif lefel uchel o ba weithgareddau a gyflawnwyd gennych chi, ond yn hytrach dylech chi ei ddefnyddio at bwrpasau hunanfyfyrio, dadansoddi beirniadol ac adolygiad manwl o'r hyn a gyflawnwyd gennych chi; beth sydd wedi mynd yn dda, neu ddim cystal, a'ch meddyliau a'ch teimladau am sut i wella eich ymarfer.

Caiff eich tiwtor/rheolwr/cyflogwr ei annog i archwilio'r defnydd o arddulliau myfyrio gwahanol gyda chi, gan eich cefnogi i adnabod a defnyddio fformat sy'n adlewyrchu eich arddull dysgu orau ac sy'n eich cefnogi orau i wneud cynnydd a datblygu eich myfyrdodau i wella eich ymarfer.


## Beth yw log myfyriol?

Mae eich log myfyriol yn ddarn allweddol o dystiolaeth i gwblhau eich cymhwyster **Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer**. Mae hwn yn ddarn ysgrifenedig o dystiolaeth lle rydych chi'n myfyrio ar eich ymarfer wrth weithio gyda'r plant yn eich lleoliad ac yn cefnogi eraill i weithio mewn ffyrdd priodol. Byddwch chi hefyd yn nodi unrhyw anghenion datblygu sydd gennych chi er mwyn eu trafod ymhellach â'ch rheolwr/aseswr.

Mae'r log hwn yn fwy na dyddiadur a bydd yn cynnwys mwy na chofnod o ddigwyddiadau, bydd hefyd yn cynnwys hunanfyfyrio, dadansoddiad beirniadol ac adolygiadau manwl o'r hyn rydych chi wedi'i gyflawni, yr hyn sydd wedi mynd yn dda, neu ddim cystal, a'ch meddyliau a'ch teimladau am sut i ddatblygu a gwella yn ymarferol. Mae hefyd yn gyfle i chi arddangos eich bod yn gwybod ac yn deall y cysyniadau, y dulliau gweithredu, y polisïau a'r ddeddfwriaeth sy'n sail i ymarfer plentyn-ganolog a seiliedig ar hawliau o ansawdd uchel.

Caiff eich rheolwr ei annog i'ch cefnogi chi i gwblhau'r log hwn gan ddefnyddio arddulliau log myfyriol gwahanol, gan eich helpu i adnabod a defnyddio fformat sy'n adlewyrchu eich arddull dysgu orau. Dylai eich rheolwr fod yn sicr eich bod yn deall yr hyn y mae angen i chi ei wneud ac erbyn pryd, a bod angen i chi ychwanegu esboniadau sy'n dangos dealltwriaeth yn eich gwaith ysgrifenedig. Dylen nhw hefyd sicrhau nad ydych chi'n cael eich arwain, nac yn cael gwybod beth i'w ddweud, mewn ffordd sy'n eich atal rhag gallu dangos eich proses gwneud penderfyniadau a'ch ymarfer eich hun.


Mae myfyrio yn broses barhaus, sy'n hynod werthfawr a phwysig ac felly, dylech chi ddiweddaru eich log yn rheolaidd drwy gydol y cyfnod rhwng cyfarfodydd cynnydd. Eich log fydd pwnc y drafodaeth yn ystod cyfarfodydd cynnydd a bydd yn galluogi eich aseswr a'ch rheolwr i gefnogi eich dysgu'n llawn, i bennu hyder a gwybodaeth, yn ogystal â phennu eich parodrwydd ar gyfer yr asesiad.




Mae modelau myfyrio amrywiol y gallwch chi eu defnyddio ar gyfer eich log myfyriol **Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer,** fodd bynnag rydym yn argymell eich bod yn dilyn un o'r canlynol:


- Cylch Myfyriol Giibs (1988)
- Model Myfyrio Johns (2000)
- Model Cylchol Atkins a Murphy (1993).

Mae'r rhan fwyaf o fodelau myfyrio yn seiliedig ar yr egwyddor bod myfyrio yn arwain at ddysgu pellach. Fodd bynnag, bydd y modelau hyn sydd wedi'u hargymell yn eich tywys drwy'r elfennau a'r haenau gwahanol sy'n ofynnol mewn myfyrdod da, a thrwy hynny, yn sicrhau eich bod yn cynnwys y manylder, y dadansoddi a'r myfyrio angenrheidiol yn eich holl gofnodion.






## Model Myfyrio Johns



## Beth yw trafodaeth broffesiynol?

Y gweithgaredd asesu terfynol y mae angen i chi ei gwblhau yw trafodaeth broffesiynol ffurfiol (Tasg 3) gydag aseswr allanol. Bydd y drafodaeth yn canolbwyntio ar yr hyn rydych chi wedi'i ddysgu a'r datblygiad sydd wedi digwydd fel rhan o'r cymhwyster. Caiff hyn ei ategu gan y gweithgareddau a'r gwaith a gwblhawyd gennych chi fel rhan o'ch rhaglen ddysgu a'ch asesiadau. Bydd gan yr aseswr allanol ddiddordeb yn eich dull o wneud eich gwaith, sy'n dangos safon eich gwaith ymarferol.

Mae'r aseswr allanol yn chwilio am dystiolaeth eich bod yn gallu cymhwyso amcanion y cymhwyster yn eich swydd a'ch bod chi'n dangos tystiolaeth o weithio mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu'r cymwyseddau hyn, gydag enghreifftiau sydd wedi'u tynnu o, ac sy'n myfyrio ar, eich tasgau asesu a'ch ymarfer gwaith eich hun.

Rhaid i chi ymateb i'r pwyntiau trafod a'r cwestiynau yn annibynnol heb gymorth, a chydymffurfio â'r amodau perthnasol os yw'r asesiad yn cael ei gynnal o bell.

## Cyn y drafodaeth

Rhaid cyflwyno eich tystiolaeth ar gyfer Tasgau 1 a 2 i City & Guilds o leiaf 3 wythnos cyn y dyddiad sydd wedi'i amserlennu ar gyfer eich trafodaeth broffesiynol.

Bydd eich aseswr mewnol yn rhoi arweiniad i chi ar fformat y drafodaeth a bydd yn eich helpu chi gyda gweithgareddau mentora er mwyn eich paratoi ar gyfer cynnal y drafodaeth.

## Amseriadau

Ni ddisgwylir i'r drafodaeth hon bara mwy na 75 munud i gyd.

## Cadw tystiolaeth

Mae hawl gan yr aseswr i recordio'r drafodaeth yn ddigidol er mwyn cefnogi'r broses asesu, e.e. i ôl-adolygu'r drafodaeth, neu helpu i wneud nodiadau y gall fod yn anodd eu gwneud yn llawn yn ystod y drafodaeth ei hun. Os bydd yr aseswr am recordio'r drafodaeth yn ddigidol, rhaid iddo drafod hyn gyda chi a'ch cael i gytuno cyn dechrau.

# Cefnogi'r broses asesu

**Bydd eich aseswr mewnol yn:**

- adolygu cysyniad a chynllun eich project busnes o ran dichonoldeb ac yn sicrhau bod y cyfle yn cynnig digon o dystiolaeth i fodloni'r gofynion asesu (Tasg 2b)
- eich arsylwi yn rhoi'r cyflwyniad o'ch project busnes ar waith ar o leiaf dau achlysur (Tasg 2c) – **yn ogystal â'r ddau arsylwad (o leiaf) a fydd yn cael eu cwblhau yn ystod y broses asesu ffurfiannol**
- darparu tystiolaeth o arsylwadau ymarferol a thystiolaeth o'r amgylchedd gwaith, e.e. defnyddio arsylwadau/tystiolaeth tystion sydd wedi'u cynnwys yn y portffolio. Bydd y dystiolaeth hon yn llywio barn ac arsylwadau cyffredinol yr aseswr allanol
- eich cefnogi i ddatblygu portffolio o dystiolaeth sy'n ategu tystiolaeth o ymarfer ar gyfer deilliannau dysgu nas gwelwyd yn y project
- rhoi hyfforddiant parhaus i'ch cefnogi wrth i'ch project busnes symud ymlaen a'ch helpu i baratoi ar gyfer y drafodaeth broffesiynol (Tasg 3).

## Archwiliadau

Bydd eich tiwtor/aseswr hefyd yn eich cefnogi drwy gynnal archwiliadau rheolaidd gyda chi drwy gydol y cyfnod o weithio ar eich project busnes i sicrhau eich bod yn gwneud cynnydd ar y trywydd cywir gyda'ch cynllun gweithredu. Gall yr archwiliadau hyn ddigwydd fel rhan o oruchwyliaeth sydd wedi'i chynllunio a'i threfnu'n barod. Rydym yn eich annog i adolygu eich log myfyriol yn y sesiynau hyn ac i adeiladu ar ac ymgorffori canlyniad yr hyfforddi yn yr archwiliadau rheolaidd hyn i gefnogi eich ymarfer, gan fyfyrio i ddangos sut rydych chi wedi cyflawni hyn.

## Cyflwyno'r gwaith

Ar gyfer y tasgau asesu sy'n gofyn am ymatebion ysgrifenedig, disgwylir bod gennych chi fynediad i offer TG a'r rhyngrwyd, fel y bo'n briodol er mwyn cwblhau'r tasgau. Disgwylir i chi gynhyrchu ymatebion wedi'u teipio ar gyfer eich gwaith ysgrifenedig:

- Rhaid cael pennawd ar bob tudalen yn cynnwys eich enw a'ch llofnod, gyda'r dyddiad y cafodd y dystiolaeth ei chynhyrchu.
- Rhaid cyfeirio pob darn o dystiolaeth at y dasg y mae'n cyfateb iddi, naill ai ar ffurflen cyfeirio tystiolaeth neu yn y pennawd.
- Rhaid bod pob darn o dystiolaeth yn daclus, h.y. defnyddiwch ffont safonol mewn maint darllenadwy (megis Times New Roman, neu ffont tebyg, maint 12), defnyddiwch ofod dwbl a dylid sicrhau bod digon o le ar ymyl y dudalen.
- Lle y bo'n berthnasol, gallwch chi ddefnyddio a chyfeirio at adnoddau allanol drwy gydol y tasgau asesu. Fodd bynnag, mae'n rhaid i chi nodi'n glir unrhyw adnoddau allanol rydych chi wedi cyfeirio atyn nhw neu wedi'u defnyddio fel rhan o'ch ymatebion. Mae adran '**Beth mae'n rhaid i chi ei gynhyrchu ar gyfer yr asesiad**' pob tasg yn nodi'n glir lle mae'n rhaid darparu rhestr gyfeirio os ydych chi wedi defnyddio adnoddau allanol fel rhan o'ch ymateb i'r dasg.

## Cefnogaeth ac adborth

- Gall tiwtoriaid/aseswyr mewnol roi arweiniad i chi o ran y dystiolaeth sy'n ofynnol drwy gefnogi mynediad i'r tasgau.
- Dylai'r tiwtor/aseswr sicrhau eich bod yn deall yr hyn y mae angen i chi ei wneud ac erbyn pryd, a bod angen i chi ychwanegu esboniadau sy'n dangos dealltwriaeth yn eich gwaith ysgrifenedig.
- Dylid sicrhau **nad ydych chi'n cael eich arwain, nac yn cael gwybod beth i'w wneud, mewn ffordd sy'n eich atal rhag gallu dangos eich proses ar gyfer gwneud penderfyniadau a chymhwyso eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth yn annibynnol**.

- **Cyflwyno graddau asesu i City & Guild**
- **Cadarnhad o'r penderfyniad**

*Cewch chi eich hysbysu o ganlyniad yr asesiad*

*Os nad yw'r asesiad wedi'i gyflawni, bydd y rhesymau dros y canlyniad hwn yn cael eu hamlinellu a rhoddir adborth ar yr hyn y mae angen ei wneud nesaf*

## Ailgyflwyno

Os oes angen i chi gyflwyno mwy o dystiolaeth, rhaid i'r ganolfan ddarparu adborth a chefnogaeth briodol er mwyn eich galluogi i wneud hynny. Os nad ydych chi'n cyflawni'r deilliannau dysgu priodol wrth ailgyflwyno tystiolaeth, dylai'r ganolfan:

- drefnu cefnogaeth ychwanegol i chi, neu
- eich hysbysu am eich hawl i apelio.

Pan fydd yn ofynnol i chi gynnal trafodaeth broffesiynol bellach, dylai'r aseswr mewnol ddarparu llwybr archwilio clir sy'n dangos y ffordd cawsoch chi adborth cyn cynnal y drafodaeth, a pha gamau unioni gafodd eu cymryd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu unrhyw ddiffygion o ran eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth.

**Nid oes unrhyw gyfyngiad o ran sawl gwaith y gallwch chi ailsefyll/ailgyflwyno tasgau y gallech chi fod wedi'u methu fel rhan o'r cymhwyster hwn.**

## Beth sy'n digwydd ar ôl fy nhrafodaeth broffesiynol?

Unwaith y byddwch chi wedi cwblhau eich trafodaeth broffesiynol, bydd yr aseswr allanol yn sicrhau bod pob un o'r gofynion asesu wedi'u cyflawni, a bydd yn cynnal asesiad cyfannol terfynol.


Fel rhan o'i benderfyniad asesu terfynol, dylai'r aseswr allanol ystyried sut rydych chi wedi bodloni meysydd yr amcanion allweddol – yng nghyd-destun yr unedau gorfodol ac unrhyw uned ddewisol a ddewiswyd.

Ar ôl cwblhau ei benderfyniad asesu terfynol, bydd yr aseswr allanol yn cyflwyno hwn i City & Guilds fel cadarnhad o'ch canlyniad. Bydd City & Guilds yn cadarnhau canlyniadau ymgeiswyr o fewn 30 diwrnod gwaith o gwblhau'r drafodaeth broffesiynol.

# Pa gefnogaeth sydd ar gael i mi?

Mae'n bosibl y byddwch yn gallu gwneud cais am gefnogaeth ychwanegol yn ystod eich cyfnod astudio ac asesu. Bydd angen i chi fodloni meini prawf penodol a gall y broses gymryd cryn amser i'w threfnu felly gwnewch yn siŵr eich bod yn siarad â'ch tiwtor/athro/hyfforddwr neu aseswr cyn gynted ag y gallwch chi fel y gallan nhw wneud trefniadau. Nid yw pob cais am gefnogaeth ychwanegol yn llwyddiannus ac efallai y bydd gofyn i chi roi tystiolaeth benodol i helpu i wneud y penderfyniad iawn.

**COFIWCH** – cyn gwneud asesiad, mae'n bwysig eich bod yn hyderus eich bod yn barod. Bydd eich tiwtor/athro/aseswr yn eich helpu chi i gydnabod pryd rydych chi wedi cyrraedd y pwynt hwn. Drwy'r cyfnod dysgu, dylech chi gael cyfleoedd i ymarfer gweithio gydag unigolion yn y sector Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant. Edrychwch ar yr adnoddau dysgu ar y gwefannau canlynol:




Gofal Cymdeithasol Cymru:
https://gofalcymdeithasol.cymru/casgliadau/adnoddau-blynyddoedd-cynnar-a-gofal-plant
https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/hafan

# Sut gallaf baratoi ar gyfer fy asesiadau?

Dylech chi ddechrau paratoi ar gyfer eich asesiadau cyn gynted ag y byddwch chi'n dechrau eich cymhwyster. Po gynharaf rydych yn dechrau arferion astudio da, y lleiaf o straen y bydd yn ei beri i chi. Mae astudio llwyddiannus yn gofyn am sgiliau trefnu a rheoli amser da, ond mae angen i chi fod yn realistig hefyd. Os ydych chi'n gweithio yn ogystal â mynychu'r ysgol neu'r coleg, neu os ydych chi'n cwblhau rhaglen yn y gweithle, fel prentisiaeth, bydd angen i chi gynllunio ar gyfer amser astudio. Byddwch yn falch o'r ffaith eich bod yn astudio a rhowch wybod i'ch ffrindiau a'ch teulu/gofalwyr y byddwch chi angen, ac yn disgwyl, eu cefnogaeth.

Mae rhai pobl yn ei chael hi'n haws i astudio ben bore ac mae'n well gan eraill astudio'n hwyrach yn y dydd, ond ni waeth faint o'r gloch yw hi, mae astudio'n llawer haws ac yn fwy llwyddiannus pan mae gennych chi le tawel a chyfforddus sy'n olau ac sy'n cael digon o awyr, lle mae rhywle i chi ysgrifennu a darllen.

Mae llawer o adnoddau ar gael ar y gwefannau canlynol a fydd yn gymorth i chi wrth astudio.

GOFAL CYMDEITHASOL CYMRU

https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau/dogfennau

ADNODDAU DYSGU DIGIDOL

https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/hafan

Mae llawer o adnoddau a gwrthrychau sy'n gallu eich helpu i astudio.

- gall ysgrifennu â phinnau lliwgar eich helpu i amlygu geiriau neu ymadroddion allweddol pan fyddwch chi'n adolygu
- gall crynhoi eich nodiadau eich helpu i drefnu eich dysgu a lleihau ailadrodd
- gweithiwch gydag eraill mewn grwpiau bach – mae rhannu gwybodaeth a dealltwriaeth, a phrofi eich gilydd yn hynod werthfawr
- cymerwch egwylion rheolaidd – gall awyr iach ac ymarfer corff roi hwb i'ch egni ac helpu i ganolbwyntio
- ceisiwch osgoi'r cyfryngau cymdeithasol - rhowch eich ffôn ar y gosodiad 'tawel' neu, yn well fyth, diffoddwch ef.

**COFIWCH** na allwch chi astudio'n dda os ydych chi wedi blino, dan ormod o bwysau neu ar frys. Mae cynllunio a dyfalbarhad yn allweddol!

# Symud ymlaen ar draws y sector ehangach

Mae'r cymhwyster **Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer** yn rhan o gyfres fwy o gymwysterau sydd wedi'u cynllunio i alluogi symud ymlaen mewn gyrfa mewn gwasanaethau gofal plant ac i rolau eraill yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol ehangach ac astudiaeth bellach neu hyfforddiant proffesiynol.

Unwaith y byddwch chi wedi cwblhau'r cymhwyster **Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer**, gallwch chi benderfynu yr hoffech chi weithio gyda phlant hŷn neu gydag oedolion. Bydd y cymwysterau canlynol yn eich helpu chi i ddatblygu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i weithio mewn rhannau eraill o'r sector ehangach ac, er nad yw'n hanfodol, gall eich helpu i symud ymlaen i astudiaeth bellach neu uwch:

- Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd
- Lefel 3 Tystysgrif a Diploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau (Oedolion, Plant a Phobl Ifanc)
- TAG Uwch a TAG Uwch Gyfrannol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant
- Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)
- Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Plant a Phobl Ifanc)
- Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Lefel 4 Eiriolaeth Annibynnol
- Lefel 4 Lleoli Oedolion/Cysylltu Bywydau
- Lefel 4 Ymarferwr Gwasanaethau Cymdeithasol
- Lefel 5 Arwain a Rheoli  Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

# A fydd cyflogwyr y tu allan i Gymru yn cydnabod fy nghymhwyster?

Mae cynnwys y cymhwyster hwn yn cynrychioli'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth Lefel 5 sylfaenol sy'n hanfodol ar gyfer gweithio mewn rôl arwain a rheoli yn y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant.  Mae gofyn bod dysgwyr sy'n barod mewn rôl arwain neu sy'n symud ymlaen i rolau arwain yn y sector eisoes wedi cwblhau:

- y cymhwyster Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli ym maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant.

Mae pob un o'r cymwysterau newydd yn y gyfres wedi'u cysylltu ag agweddau allweddol ar y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, sydd wedi'u cydnabod gan reoleiddwyr gweithlu a sefydliadau sector yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon i gynrychioli'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i weithio yn y maes blynyddoedd cynnar a gofal plant ar draws y DU.

# Cyllid

Gellir ariannu pob un o'r cymwysterau y cyfeirir ato yn y ddogfen hon yng Nghymru, yn cynnwys Prentisiaethau.  Siaradwch â'ch ysgol, coleg, neu ddarparwr yn y gweithle am gyfleoedd ariannu a allai fod yn addas ar eich cyfer chi.

# Sut ydw i'n hoffi dysgu – beth yw fy 'hoff' ddull dysgu?


Mae dysgu yn broses bersonol iawn ac felly mae'n bwysig eich bod yn canolbwyntio ar sut gallwch chi ddysgu, prosesu gwybodaeth yn effeithiol a sut gall hyn gefnogi eich llwyddiant a'ch cynnydd. Mae'n bwysig eich bod yn dysgu'n effeithiol fel y gallwch chi adalw eich gwybodaeth newydd yn hawdd pan fo angen. Nid yw hyn yn ymwneud yn unig â gwneud yn dda yn eich asesiadau – mae yr un mor bwysig eich bod yn gallu adalw eich gwybodaeth pan fyddwch chi'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant ac unigolion eraill. Bydd y cymhwyster hwn yn eich galluogi chi i ddatblygu a dangos eich gwybodaeth, dealltwriaeth, ymddygiad, sgiliau ac ymarfer mewn lleoliad gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Mae ymchwil yn awgrymu bod gan y rhan fwyaf o bobl hoff ffordd o ddysgu, a ellir ei ddisgrifio'n fras ag un o neu ddau o'r canlynol:

1. Gwneud
2. Meddwl
3. Teimlo
4. Gwylio.


Dros y blynyddoedd mae llawer o fodelau neu ddamcaniaethau wedi'u datblygu er mwyn ceisio ein helpu i nodi sut rydym yn dysgu a pha fath o bethau y gall fod eu hangen ar wahanol unigolion i wneud dysgu'n broses haws a mwy llwyddiannus. Dau o'r modelau mwyaf poblogaidd neu a ddefnyddir fwyaf yw damcaniaeth dysgu arbrofol Kolb (1984) a damcaniaeth Honey a Mumford (1983) ar ddulliau dysgu.

Mae model Kolb yn awgrymu bod dysgu effeithiol yn digwydd mewn cylch, bod 'profiadau' yn ganolog i'r broses a bod y rhan fwyaf o bobl yn dysgu gan ddefnyddio un neu ddau fath o weithred – teimlo, meddwl, gwylio, gwneud.




Kolb D.A. (1984) 'Experiential Learning experience as a source of learning and development', New Jersey: Prentice Hall

Datblygodd Honey a Mumford ddamcaniaeth Kolb sy'n awgrymu bod pedwar math o ddulliau dysgu ac y bydd dull unigolyn o ddysgu yn cael ei ddylanwadu'n gryf gan un neu ddau o'r rhain yn unig.




Pan gyflwynwyd y pwnc o 'hoff' ddulliau dysgu am y tro cyntaf fel ffordd o gefnogi dysgu effeithiol, roedd llawer yn credu bod unigolion ond yn dysgu mewn ffordd benodol a bod hyn yn gymharol ddigyfnewid. Mae'r ffordd fodern o feddwl am 'hoff' ddull dysgu yn nodi na ddylid meddwl am y ffordd rydych chi'n mynd ati i ddysgu fel rhywbeth digyfnewid.  Mae meddwl am eich ffordd ddewisol chi o ddysgu yn adnodd defnyddiol i'ch helpu i ystyried sut rydych chi'n ymateb yn wahanol i wybodaeth yn dibynnu ar bethau fel sut rydych chi'n teimlo, eich cymhelliant a'ch hyder, y math o amgylchedd rydych chi ynddo, ac ati.

Meddyliwch am y tro diwethaf i chi orfod dysgu rhywbeth. Efallai y byddwch chi'n sylwi bod eich dull dewisol yn cyd-fynd ag un, neu ddau, o'r categorïau canlynol:

| ARDDULL DYSGU | EFALLAI MAI DYMA'CH HOFF DDULL DYSGU OS: | RYDYCH YN: | MATHAU O DDULLIAU DYSGU SY'N APELIO |
|---|---|---|---|
| GWEITHREDYDD | ydych chi'n hoffi dysgu drwy wneud. | frwdfrydig; yn tueddu i wneud pethau yn gyntaf ac ystyried wedyn; yn canolbwyntio ar y fan hyn a nawr. | Taflu syniadau, arbrofion ymarferol, chwarae rôl, trafodaeth grŵp a datrys problemau. |
| PRAGMATYDD | ydych chi'n hoffi gwybod sut mae pethau'n gweithio neu sut gallai pethau weithio yn y byd go iawn. | tueddu i sefyll yn ôl; yn ystyried pob ongl; yn tueddu i fod yn rhy ofalus. | Astudiaethau achos ac amser i feddwl am gymwysiadau ymarferol yr hyn rydych chi'n ei ddysgu. |
| MYFYRIWR | ydych chi'n hoffi meddwl am beth rydych chi'n ei ddysgu. | hoffi rhoi cynnig ar bethau; yn mynd i weithredu'n gyflym ac yn hyderus; yn gallu bod yn ddiamynedd; yn ddatryswr problemau effeithiol. | Treulio amser yn darllen ynglŷn â phwnc a gwylio pobl eraill yn rhoi cynnig ar bethau. |
| DAMCANIAETHWR | ydych chi'n hoffi deall sut mae'r pethau newydd rydych chi'n eu dysgu'n ffitio yn eich 'model gwaith' neu 'fframwaith' ac mewn damcaniaethau blaenorol. | dda am addasu; yn hoffi dadansoddi, meddwl yn ddwfn am bethau; yn feddyliwr rhesymegol. | Modelau a damcaniaethau, gyda digonedd o wybodaeth gefndir. |

Os ydych chi'n meddwl am brofiadau dysgu eraill rydych chi wedi'u cael, efallai y byddwch chi'n sylwi eich bod wedi defnyddio dull gwahanol oherwydd, er enghraifft, (1) roedd gennych chi fynediad at adnoddau gwahanol, (2) roeddech chi'n teimlo'n hyderus, a (3) roeddech chi'n gallu cymryd eich amser. Mae hyn oherwydd y gall yr amgylchedd, sut rydych chi'n teimlo'n emosiynol, a phrofiadau dysgu blaenorol yn gallu effeithio ar y ffordd rydych yn dysgu heddiw.

Siaradwch â'ch tiwtor/athro/aseswr/mentor yn y gweithle/cyflogwr am yr hyn sy'n gwneud dysgu'n haws i chi a pha bryderon, os o gwbl, sydd gennych chi am ddechrau cymhwyster neu raglen astudio newydd. Gall eich tiwtor/athro/aseswr/mentor yn y gweithle/cyflogwr eich cefnogi chi i gael gafael ar gymorth a chyngor ychwanegol, gan gynnwys sut i nodi a deall yn well pa ddulliau dysgu gwahanol sy'n gweithio'n well i chi.